# Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
# Cydgabinet
# Cofnodion

**CYDGABINET: 17 MAWRTH 2017**
**LLEOLIAD: TŶ DYSGU, NANTGARW**

**Yn bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Y Cyng. Andrew Morgan, Arweinydd (Cadeirydd) | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Chris Bradshaw, Prif Weithredwr | - | Cyngor Rhondda Cynon Taf |
| Y Cyng. Jim McIlwee, Dirprwy Arweinydd | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Stephen Gillingham, Prif Weithredwr | - | Cyngor Blaenau Gwent |
| Y Cyng. Huw David, Arweinydd | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Darren Mepham, Prif Weithredwr | - | Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr |
| Chris Burns, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerffili |
| Y Cyng. David Poole | - | Cyngor Caerffili |
| Christina Harrhy | - | Cyngor Caerffili |
| Y Cyng Ramesh Patel | - | Cyngor Caerdydd |
| Paul Orders, Prif Weithredwr | - | Cyngor Caerdydd |
| Y Cyng. Brendan Toomey, Arweinydd | - | Cyngor Merthyr |
| Gareth Chapman, Prif Weithredwr | - | Cyngor Merthyr |
| Paul Matthews, Prif Weithredwr | - | Cyngor Sir Fynwy |
| Y Cyng. Debbie Wilcox, Arweinydd | - | Cyngor Casnewydd |
| Will Godfrey, Prif Weithredwr | - | Cyngor Casnewydd |
| Y Cyng. Anthony Hunt, Arweinydd | - | Cyngor Torfaen |
| Alison Ward, Prif Weithredwr | - | Cyngor Torfaen |
| Rob Thomas, Prif Weithredwr | - | Bro Morgannwg |
| Sheila Davies | - | Bargen Ddinesig |

**Swyddogion:**

| | | |
|---|---|---|
| Sian Workman | - | Bargen Ddinesig |
| John Duddridge | - | Bargen Ddinesig |

1 : CADEIRYDD

Cynigiodd y Cynghorydd B Toomey y dylid enwebu'r Cynghorydd Andrew Morgan yn Gadeirydd. Cafodd hyn ei eilio gan y Cynghorydd Debbie Wilcox.

**PENDERFYNWYD** – y byddai'r Cynghorydd Andrew Morgan yn cael ei ethol yn Gadeirydd Cydgabinet Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd**.**

1 : CROESO AC YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i gyfarfod cyntaf y Cydgabinet a derbyniwyd yr ymddiheuriadau canlynol:

Y Cynghorwyr Neil Moore, Peter Fox, Keith Reynolds a Phil Bale.

## 3 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 4 : ADRODD AR DREFNIADAU'R CORFF ATEBOL

Derbyniodd y Cydgabinet adroddiad yn rhoi diweddariad ar rôl y Corff Atebol, rôl y Swyddfa Rheoli Projectau, y goblygiadau cysylltiedig o ran adnoddau a gofynion llywodraethu Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Cynigiwyd y dylid ategu at argymhelliad C i'w gwneud hi'n glir bod y dirprwy arfaethedig, sef Cyfarwyddwr y Rhaglen, yn cynnwys yr awdurdod yn gweithredu darpariaeth gyllideb Datblygu a Chymorth Project Cynnar mewn perthynas â gwerthusiadau buddsoddi project cychwynnol, fel yr amlinellir ym mharagraff 52 o'r adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

a) cymeradwyo'r trefniadau i Gyngor Dinas Caerdydd weithredu swyddogaethau'r Corff Atebol fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn.

b) cymeradwyo Cynllun Cyllideb 2017/18, a chyllideb 5 mlynedd Cydgabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad hwn i gynnwys gweithgareddau Swyddfa Rheoli'r Rhaglen a'r Corff Atebol.

c) y dylid dirprwyo Awdurdod i Gyfarwyddwr y Rhaglen a Swyddog Adran 151 Cyngor Dinas Caerdydd i weithredu'r gyllideb a gymeradwywyd yn argymhelliad b) uchod mewn perthynas â'r Swyddfa Ranbarthol a'r Corff Atebol, mewn ymgynghoriad â Phrif Weithredwr arweiniol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd gwaith Cyfarwyddwr y Rhaglen yn cynnwys gweithredu'r ddarpariaeth gyllideb ar gyfer Cymorth Datblygu Project Cynnar mewn perthynas â dadansoddi buddsoddiad cychwynnol projectau.

d) dyrannu hyd at 3% o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach (dros cyfnod o 20 mlynedd) i ariannu'r costau a'r cyfraniadau sy'n gysylltiedig ag ystod o Gyrff Rhanbarthol a bodloni costau Datblygu a Chefnogi'r Rhaglen, yn dibynnu ar delerau ac amodau ariannu Llywodraeth Cymru.

e) cymeradwyo'r Protocol Llywodraethu yn Atodiad 1.

## 5 : ADRODD AR GYNLLUN PONTIO 2017/18 (TASGAU A GWEITHGAREDDAU)

Bu i'r Cydgabinet ystyried adroddiad yn manylu ar sgôp, tasgau a gweithgareddau i fynd ar ôl yn effeithiol y gofyn am y Cydgytundeb Gwaith (JWA) mewn perthynas â chyflawni Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth

Caerdydd. Mae'r adroddiad yn rhoi manylion ar raglen waith i fodloni'r gofynion. Bu trafodaeth yn amlinellu'r ffaith bod y JWA yn paratoi ar gyfer Cynllun Busnes Cydgytundeb Gwaith (fel y'i diffinnir yn y JWA), a fydd yn cael ei gyflwyno i bob Cyngor er cymeradwyaeth. Mynegwyd y dyhead i symud yr elfen hon ar y gwaith ymlaen cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl, ac y dylid nodi hyn yn y penderfyniad.

**PENDERFYNWYD**

a) Cymeradwyo sgôp y Cynllun Pontio fel y nodwyd yn 7a) i 7k),

b) cymeradwyo'r argymhellion a nodwyd yn 8.1) i 8.15) a

c) bod y gwaith o baratoi'r Cynllun Busnes Cydgytundeb Gwaith, a fydd yn cael ei gyflwyno i bob Cyngor er cymeradwyaeth, yn symud ymlaen cyn gynted ag sy'n rhesymol bosibl

6 : ADRODD AR GYLCH GORCHWYL BWRDD Y RHAGLEN

Bu i'r Cydgabinet ystyried adroddiad yn rhoi manylion ar ddiben a swyddogaethau Bwrdd Rhaglen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, roedd yr adroddiad hefyd yn trafod cylch gorchwyl y Bwrdd Rhaglen.

**PENDERFYNWYD:** y dylid sefydlu Bwrdd Rhaglen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyda'r Cylch Gorchwyl a nodwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad.